

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 17 Ionawr, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Cynghorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, A.M. Ernest, M.J. Hooper, E. Penn, I.A.N. Perry a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr B. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), W.A. Hennessy, Dr. I.J. Johnson, E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

608 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

609 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr V.P. Driscoll a C. Iannuci.

610 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd a 13 Rhagfyr, 2022 fel cofnod cywir.

611 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

612 ARCHWILIO CYMRU: ADOLYGIAD SICRWYDD AC ASESIAID RISG (SAR) CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 AC ADRODDIAD ASTUDIAETH GENEDLAETHOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU AR BARODRWYDD CARBON YN Y SECTOR CYHOEDDUS AR GYFER SERO NET ERBYN 2030 (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd oddi wrth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Rhagfyr, 2022, ac a oedd wedi'i chynnwys ar yr agenda, ei chyflwyno gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol. Roedd a wnelo'r eitem ag Adroddiad Sicrwydd ac Asesu Risg Blynyddol y Cyngor, a luniwyd gan Archwilio Cymru, ac fe'i cyflwynwyd gerbron y Pwyllgor yn gysylltiedig â chais penodol i ystyried ymateb y Cyngor i'r argymhellion.

Yn unol ag ymrwymiad i gynnal rhaglen waith hirdymor ar y newid hinsawdd, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Gorffennaf 2022 adroddiad ar Barodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030, a oedd ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad. Yn sgil yr adolygiad hwnnw cynigiwyd un argymhelliad i'w ystyried gan y Cyngor:

- A1: Er mwyn cyflawni ei uchelgais sero net roedd angen i'r Cyngor gostio ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr mai'r ymateb a gynigiwyd oedd bod Bwrdd Rhaglen Project Sero wedi adolygu'r adroddiad gan Archwilio Cymru a'i ganfyddiadau ac wedi ystyried costau cyflawni pob cynllun unigol. Roedd hynny'n ychwanegol at ddatblygu mewnwelediad i ddata yr oedd ei angen er mwyn helpu i ddeall cyfanswm y costau hyd ddiwedd y cynllun, ac roedd y gwaith hwnnw ar y gweill.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper fod ansicrwydd ynghylch gallu'r Cyngor i gyrraedd sero net erbyn 2030, a chyfeiriodd at yr angen i'r Cyngor fod yn fwy uchelgeisiol. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr adroddiad ar Brosiect Sero a oedd i'w ystyried yn ddiweddarach ar yr Agenda, yn cyfeirio at allyriadau carbon y Cyngor, ac yn rhannu'r rheiny'n dri maes gweithgarwch. Roedd gan y Cyngor reolaeth uniongyrchol ar y tri maes gweithgarwch hynny, ond roedd hi'n fwy anodd creu newid mewn gweithgareddau ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi, a oedd i gyfrif am bron i 90% o allyriadau'r Cyngor. Cafodd mecanwaith i fesur allyriadau carbon ei ddylunio'n wreiddiol yn 2019/20, ond ers hynny roedd Llywodraeth Cymru wedi mireinio'r mecanwaith hwnnw. Roedd hynny'n golygu ei bod hi'n fwy anodd llunio cymhariaeth uniongyrchol o weithrediadau'r Cyngor, ac effaith lleihau Carbon yn sgil hynny. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n ddefnyddiol gallu cymharu o'r naill flwyddyn i'r nesaf i weld effaith gweithrediadau'r Cyngor o dan Brosiect Sero. Roedd hi'n bwysig ystyried bod Covid hefyd wedi effeithio'n rhannol ar y data ar gyfer 2019/20, ond roedd y Cyngor yn dechrau gweld patrymau o newid mewn gweithgarwch. Roedd hi felly'n bwysig hefyd deall effaith y newidiadau hynny ran cyrraedd targed sero net y Cyngor ar gyfer 2030, ac mewn perthynas â tharged sero net cyffredinol 2050 ar gyfer Cymru, a dyna pam bod deall beth oedd cyfanswm allyriadau holl ardal Bro Morgannwg yr un mor bwysig. Roedd y Cyngor felly wedi comisiynu rhywfaint o waith allanol i ddeall y gwahanol sectorau

a'u heffaith ar draws Bro Morgannwg, a fyddai'n cynorthwyo'r Cyngor i weithio fel arweinydd cymunedol er mwyn newid ymddygiadau y tu allan i'r sefydliad.

Mewn perthynas â'r gwaith allanol a gomisiynwyd gan y Cyngor, dywedodd y Cyfarwyddwr fod drafft o'r adroddiad hwnnw wedi dod i law, ond y gofynnwyd am waith a mireinio pellach. Roedd disgwyl i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r diweddariad nesaf ar Brosiect Sero.

Wedi hynny, yr oedd

ARGYMHELLWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

613 CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 15 Rhagfyr 2022, fel yr oedd wedi'i chynnwys ar yr agenda, ei chyflwyno gan y Rheolwr Gweithredol, Adfywio.

Roedd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn rhan o ymrwymiad ehangach Llywodraeth y DU i godi'r gwastad ym mhob rhan o'r DU. Mae'n gymysgedd o gyllid refeniw a chyfalaf. Nod cyffredinol y gronfa oedd ennyn balchder mewn lle a chynyddu cyfleoedd bywyd. Roedd tair blaenoriaeth buddsoddi yn sail i'r nod hwn: cymunedau a lle; cefnogi busnesau lleol; a phobl a sgiliau.

Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a'r Cynllun Buddsoddi Lleol. Roedd trosolwg o'r Cynllun Buddsoddi Lleol ar gyfer ardal awdurdod lleol Bro Morgannwg ynghlwm yn Atodiad 1.

Nodwyd bod y proffil ariannu (gweler paragraff 5.1 yr adroddiad) ar gyfer Bro Morgannwg a phob Cyngor yn heriol, yn enwedig yn 2022/23. Roedd y Cabinet felly wedi penderfynu dirprwyo pwerau penodol i swyddogion enwebedig yn gysylltiedig â dyrannu cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio perthnasol.

Gofynnodd y Cynghorydd M. Hooper beth fyddai'r goblygiadau pe na bai'r arian yn cael ei wario mewn pryd, gan gyfeirio'n benodol at y prosiect i ddatblygu Marina newydd yn y Barri. Atebodd y Rheolwr Gweithredol drwy ddweud bod y Cyngor wedi gwneud cais am grant o £20 miliwn am Farina a Chanolfan Chwaraeon Dŵr gymunedol newydd ar lannau'r Barri. Cydnabuwyd y gellid cyfiawnhau rhywfaint o lithriant o dan Gronfa Codi'r Gwastad, ond nid oedd yr un hyblygrwydd wedi'i gynnig ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd y Cyngor wedi galw ar fusnesau a grwpiau cymunedol i lywio gwariant y Gronfa. Mae'n anochel mai un o'r ffactorau allweddol yn y broses benderfynu fyddai'r gallu i gyflawni prosiectau. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y dyraniad cyllid wedi cynyddu dros y ddwy flynedd nesaf, gyda thua £14.1 miliwn i'w wario erbyn diwedd 31 Mawrth, 2023. Byddai'r swm hwnnw'n cael ei golli pe na bai'n cael ei wario mewn proffiliau blynyddol.

Gofynnodd y Cynghorydd E. Penn a oedd bwlch rhwng y cyllid a gafwyd yn flaenorol gan yr UE a'r cyllid a roddir bellach gan Lywodraeth y DU. Fel ateb, cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol fod y cyllid yn llawer is ar raddfa Cymru gyfan, ond nad oedd gwybodaeth ar gael ar raddfa leol. Roedd y Cyngor wedi gweld rhai rhaglenni sylweddol, ee y Rhaglen Datblygu Gwledig fu'n weithredol ers tro, yn diflannu ar ôl colli arian yr UE. Roedd unrhyw gyllid yn cael ei groesawu, ond roedd angen cydnabod y byddai angen targedu'r cyllid hwnnw'n well. Yn anochel, byddai rhai cymunedau a sectorau busnes ar eu colled.

O ran gwella cyflogadwyedd a chefnogaeth i'r rhai sy'n economaidd anweithgar, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod Prosiect Rhanbarthol yn anelu i gynyddu sgiliau pobl drwy gefnogi rhifedd a llythrennedd. Roedd hyn yn debyg i brosiect a fodolai eisoes gan Cronfa Gymdeithasol Ewrop, a byddai'n darparu rhagor o wybodaeth amdano i'r Aelodau maes o law. Ar raddfa leol, roedd swm llai o arian hefyd ar gael ar gyfer sgiliau a oedd heb ei ddyrannu eto.

Wedi hynny, yr oedd

ARGYMHELLWYD – Croesawu'r cyllid a ddarparwyd.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

614 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (PW) –

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yr adroddiad a oedd yn manylu ar weithgarwch amrywiol sy'n digwydd i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflawni yn erbyn ymrwymadau yn y Cynllun Her Newid Hinsawdd ac i fwrw ymlaen â Phrosiect Sero. Roedd y cynnydd yn cynnwys gwaith yn gysylltiedig â chyfathrebu, cerbydau trydan, Cynllun Seilwaith Gwyrdd newydd, rheoli gwastraff ac ysgolion.

Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar rai o'r data allweddol ar allyriadau carbon y Cyngor, fel yr adroddwyd wrth Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am y cyllid yn gysylltiedig â Phrosiect Sero a'r ymagwedd yr oedd y Bwrdd yn ei mabwysiadu o ran dyrannu cyllid.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r newyddion diweddaraf am yr ymagwedd at reoli rhaglenni a'r trefniadau i adrodd ar gynnydd ar gyfer Prosiect Sero. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod Atodiad A yn cynnwys yr adroddiad cynnydd diweddaraf ei hun, a oedd yn anelu i fynd i'r afael â tharged mewnol 2030 ar gyfer sero net, yn ogystal â tharged 2050 i Gymru. Roedd yr adroddiad wedi'i seilio ar dri maes y cynllun her.

Gyda chaniatâd i siarad, dywedodd y Cynghorydd M. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu) fod Prosiect Sero ymhlith prif feysydd ffocws y Cyngor, gan mai'r newid hinsawdd oedd un o'r heriau mawr o'n blaenau. Un o'r pethau yr oedd yn awyddus iawn i'w darparu ar draws y Fro oedd pwyntiau gwefru trydan, ac roedd rhai ohonynt wedi cael eu gosod yn ddiweddar ym

Mhenarth, yn y Barri ac yng Ngorllewin y Fro. Fodd bynnag, roedd angen i'r Cyngor ganfod mwy o fannau i osod y pwyntiau, ac roedd hynny'n her, felly byddai'n ddiolchgar pe bai gan yr Aelodau unrhyw leoliadau priodol i'w hawgrymu. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet wedyn at newid ymddygiad, a dywedodd fod ffyrdd yn rhan o'i bortffolio ef ar y Cabinet, a bod angen i'r Cyngor wneud mwy i hyrwyddo teithio llesol er mwyn annog pobl i gerdded a beicio.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E. Penn at wefru cerbydau trydan, a nifer y tai teras yn y Barri a Phenarth, felly byddai'n fuddiol iawn canfod dull o wefru ar y stryd. Ychwanegodd y Cynghorydd Penn fod annog pobl i feicio mwy yn gryn her, a holodd beth fu'r cynnydd o ran y cynllun teithio llesol a oedd wedi'i gynnig rhwng y Barri a Dinas Powys. Cwestiwn olaf y Cynghorydd Penn oedd a fyddai coed o'r un rhywogaeth yn cael eu plannu yn lle coed a oedd yn cael eu torri i lawr oherwydd clefyd coed ynn. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr fod cydweithwyr o fewn y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth yn gweithio ar bwyntiau gwefru yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac roedd cynigion yn cael eu datblygu ar gyfer ystod o wahanol ddulliau y gellid eu mabwysiadu. Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu i esbonio sut y gallai'r cynigion weithredu, ac roedd peth o'r wybodaeth honno'n gysylltiedig â'r ddealltwriaeth o'r ddaearyddiaeth ac o gynllun y gwahanol ardaloedd, gan gynnwys y Barri a Phenarth. Byddai cais yn cael ei wneud am wybodaeth am y cynigion teithio llesol ar gyfer Dinas Powys, ac rhywogaeth y coed a fyddai'n cymryd lle'r coed blaenorol, a'r wybodaeth yn cael ei rhannu â'r Aelodau drwy e-bost.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Hooper at yr ansicrwydd ynghylch cyrraedd targed 2030 fel y'i codwyd yn adroddiad Archwilio Cymru, a dywedodd y dylai'r Cynllun fod yn fwy uchelgeisiol, gan nodi enghreifftiau fel pwysigrwydd plannu coed mewn ardaloedd trefol yn lle rhai sy'n cael eu torri i lawr; y cysylltiadau rhwng twf economaidd a'r newid hinsawdd; a bod angen cyfeirio mwy at effaith llifogydd. Ynglŷn â phwyntiau gwefru cerbydau trydan, dywedodd y Cynghorydd Hooper y dylem fod yn gyrru llai, yn hytrach na gyrru cerbydau trydan yn unig, felly roedd angen mwy o ffocws o ran hynny ar arweinyddiaeth. Roedd gan weithredwyr masnachol hefyd bwyntiau gwefru nad oeddent yn cael eu gwasanaethu'n ddigon aml ac a allai felly fod wedi'u torri am gyfnodau hir, felly holodd y Cynghorydd Hooper a allai'r Cyngor gynorthwyo yn hyn o beth. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n gofyn i'w gydweithwyr am wybodaeth ynghylch penderfyniadau i blannu coed newydd yn lle coed a oedd yn cael eu colli. O ran y cysylltiad rhwng twf economaidd a'r newid hinsawdd, roedd y Cyngor wedi ystyried cryfhau rhai o'r ymrwymadau o fewn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd meysydd gweithgarwch penodol ar y gweill i greu cynllun buddsoddi a thwf ar gyfer y Fro, ac roedd uwchgyllun hefyd wedi'i greu ar gyfer y Barri, a oedd hefyd yn cyfeirio at beth o'r datblygiad hwnnw. Roedd cysylltiadau rhwng y penderfyniadau hynny a'r cynllun seilwaith gwyrdd hefyd dan ystyriaeth, a byddai'r sylwadau'n cael eu cyfeirio i sylw'r Cyfarwyddwr Lle. O ran y newyddion diweddaraf ynghylch llifogydd, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai gwybodaeth bellach yn cael ei hanfon drwy e-bost.

Roedd y Cynghorydd I. Perry yn cytuno â safbwyntiau'r Cynghorydd Hooper, gan ddweud nad cerbydau trydan oedd yr ateb, gan fod canfod deunyddiau ar gyfer ynni adnewyddadwy yn effeithio ar yr amgylchedd. Felly, roedd angen mwy o uchelgais, ac roedd angen i'r Cyngor feddwl mwy am newid ffyrdd o fyw. Dywedodd y

Cynghorydd Perry ei fod yn teimlo'n rhwystredig bod coed aeddfed yn cael eu tynnu, a bod angen gwneud newidiadau mwy a gwneud pethau mewn ffordd wahanol.

Yn rhan o'r diweddariad, ac yn dilyn cais gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, rhoddodd Cydgysylltydd y Bartneriaeth Natur Leol gyflwyniad ar y Bartneriaeth Natur Leol. Trafodwyd yr agweddau canlynol yn rhan o'r cyflwyniad:

- Cefndir creu Partneriaethau Natur Lleol;
- Cyfansoddiad ac amcanion Partneriaeth Natur Leol y Fro;
- Dyranriad cyllid gan Lywodraeth Cymru. Canolbwyntio ar ardaloedd trefol ac ardaloedd ar gyrion trefi lle ceir amddifadedd. Roedd dyranriad cyllid 2022-23 gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys £62.4k ar gyfer refeniw a £169k ar gyfer cynlluniau cyfalaf yn cynnwys creu ac adfer cynefinoedd, hyfforddi gwirfoddolwyr ac offer/peiriannau i reoli cynefinoedd;
- Dadansoddiad o grantiau a ddyfarnwyd i grwpiau a phrosiectau cymunedol ar gyfer 2020/21, 2021/22 a 2022/23. 32 o ddyfarniadau unigol dros y tair blynedd;
- Gwaith wedi'i gyflawni i reoli glaswelltir, fel yr ymylon peilot ar yr A48 a ffordd osgoi Ffwl-y-mwn;
- Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur;
- Camau nesaf y Bartneriaeth.

Dywedodd y Cynghorydd C. Champion nad oedd cyllido ar sail flynyddol yn ddelfrydol, a holodd a oedd Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y byddai cyllid yn y dyfodol yn cael ei ddyrannu ar sail cyfnod hirach. Dywedwyd wrth y Pwyllgor na chafwyd unrhyw awgrym o hynny oddi wrth Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Cynghorydd Champion y byddai'n ddefnyddiol i Swyddogion Partneriaeth Natur Leol y Fro a'r awdurdodau cyfagos gysylltu â'i gilydd i ystyried cyfleu'r problemau cyllido ar y cyd wrth Lywodraeth Cymru.

Adeisiodd y Cynghorydd M. Hooper safbwyntiau'r Cynghorydd Champion ynghylch y cyllid, a dywedodd y dylid cychwyn rhyw fath o ymgyrch i lobio Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Cynghorydd Hooper hefyd fod prosiectau cymunedol ar y gweill, fel perllan gymunedol Heol yr Harbwr, nad oedd swyddogion y Bartneriaeth o bosibl yn ymwybodol ohonynt, ond y byddent yn eu cefnogi. Dywedodd y Cynghorydd Hooper fod angen i'r Cyngor feddwl yn groes i'r arfer wrth leoli pethau, gan gyfeirio at yr angen am fannau parcio ychwanegol yn Ynys y Barri. Yr hyn yr oedd ei angen, fodd bynnag, oedd mwy o ystyriaeth ynghylch sut roedd y Cyngor yn newid ymddygiad pobl, er enghraifft, drwy ddweud bod y car yn llai pwysig na dulliau teithio eraill.

Cyfeiriodd y Cynghorydd I. Perry at y prosiect peilot yn gysylltiedig â'r glaswellt ar hyd ymylon yr A48. Dywedodd y Cynghorydd Perry hefyd y gallai cyfle godi i ymgysylltu â'r Cyngor Cymuned Lleol i gael cymorth. Gallai cyfleoedd eraill godi i weithio gyda'r holl Gynghorau Tref neu Gymuned ar draws y Fro. Cyfeiriodd y Cynghorydd Perry hefyd at benderfyniadau cynllunio a wnaed gan y Cyngor, a fyddai yn ei farn ef yn arwain at golli cynefinoedd yn ei Ward.

Dywedodd y Cynghorydd Dr I.J. Johnson, nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor, ond yr oedd ganddo ganiatâd i siarad, ei fod wedi gofyn i'r Pwyllgor Craffu ystyried gwaith y

Bartneriaeth. Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson ei fod yn adleisio sylwadau'r Cynghorydd Perry a'r syniad o weithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned fel partneriaid cyflawni. Roedd yn gwerthfawrogi'r syniad o natur ar garreg y drws, ond gan fod y prosiectau wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol ac o gwmpas trefi, gallai rhai ardaloedd o'r Fro gael eu heithrio. Roedd yn falch o weld natur hirdymor y Cynllun, ond roedd yn rhannu'r pryder bod cyllid Llywodraeth Cymru'n cael ei ddyrannu'n flynyddol. Roedd hynny'n ei gwneud yn fwy anodd cynllunio gwaith hirdymor. Awgrymodd y Cynghorydd Dr. Johnson felly y byddai'n werth i'r Pwyllgor Craffu neu'r Cabinet anfon llythyr at Lywodraeth Cymru, yn nodi'r pryderon ynghylch y model cyllido, ac yn gofyn am gael gweithredu cyllid dros sawl blwyddyn ar gyfer y rhaglen.

Cyfeiriodd y Cadeirydd, y Cynghorydd S. Perkes at brosiectau cymunedol eraill sydd ar y gweill mewn Wardiau yn y Barri, ond nododd y byddai cynlluniau o'r fath yn cael eu croesawu ym mhobman.

Dywedodd y Cynghorydd Champion ei fod yn cytuno â'r Cynghorydd Dr. Johnson ynghylch ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, a gwnaeth argymhelliad ffurfiol i'r Pwyllgor, a gafodd ei eilio gan y Cynghorydd A. Ernest. Gyda chaniatâd i siarad, dywedodd yr Arweinydd, y Cynghorydd L. Burnett fod problem cyllid byrdymor yn bwnc a oedd yn cael ei drafod yn rheolaidd â Llywodraeth Cymru, felly ni fyddai codi'r mater eto yn weithred newydd. Yr hyn a oedd angen sylw oedd yr oedi cyn i'r llywodraeth ganolog hysbysu swm y gyllideb. Yn dilyn pleidlais gan y Pwyllgor Craffu, ni chafodd argymhelliad y Cynghorydd Champion ei dderbyn.

Wedi hynny, y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r cynnydd y manylwyd arno yn yr adroddiad mewn perthynas â'r heriau o fewn y Cynllun Her Newid Hinsawdd.
- (2) Cymeradwyo'r argymhelliad y dylid adrodd ar y cynnydd cyffredinol ddwywaith y flwyddyn. Bydd hyn yn ychwanegol at y cynnydd a adroddir fel rhan o'r adroddiadau monitro perfformiad chwarterol ac adroddiadau sy'n ymwneud â phynciau penodol, er enghraifft ar y Cynllun Seilwaith Gwyrdd neu faterion trafndiaeth.
- (3) Y dylid nodi'r cyllid sydd ar gael yn y cronfeydd wrth gefn a'r trefniadau a gynigir i gymeradwyo'r defnydd o gronfeydd wrth gefn i symud ymlaen â chynlluniau yn y dyfodol.
- (4) Y dylid nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ynghylch allyriadau carbon y Cyngor fel yr adroddwyd i Lywodraeth Cymru yn hydref 2022.
- (5) Y dylid cyfeirio'r adroddiad ac unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor i'r Cabinet i'w hystyried ochr yn ochr â sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau.

(6) Y dylid argymhell i'r Cabinet bod yr adroddiad hwn yn cael ei ddsbarthu i'r holl Aelodau etholedig, aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gyngorau Tref a Chymuned er gwybodaeth.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Galluogi adroddiadau cynnydd ystyrllon ac amserol.
- (3) Sicrhau bod Aelodau'n ymwybodol o'r cyllid sydd ar gael a'r trefniadau ar gyfer dyrannu a chymeradwyo cynlluniau i fwrw ymlaen â Prosiect Sero.
- (4) Sicrhau bod Aelodau'n ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf a adroddwyd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag allyriadau carbon y Cyngor.
- (5) Galluogi'r Cabinet i ystyried sylwadau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio fel rhan o'i ystyriaeth o gynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Her Hinsawdd.
- (6) Diweddarau'r holl Aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill ar y trefniadau sydd ar waith i gyflawni Prosiect Sero.